

09.04.20

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880450

Erthygl i'r Wasg Press Article

Selebs yn mynd ar daith i ddysgu Cymraeg

Pum celeb, pum mentor a phum rheswm gwahanol dros ddysgu'r Gymraeg - dyna beth sydd wrth galon **Iaith ar Daith** - cyfres newydd sbon sydd yn dechrau ar S4C.

Pob wythnos, yn dechrau ar nos Sul, 19 Ebrill, bydd un celeb ac un mentor Cymraeg ei iaith, sydd hefyd yn wyneb adnabyddus, yn teithio i fannau gwahanol o Gymru er mwyn dysgu mwy o'r iaith - ac fe fydd sawl her ar y ffordd.

Dyma'r selebs sy'n cymryd rhan yn y gyfres Iaith ar Daith:

Carol Vorderman - Y cyn-gyflwynydd *Countdown*, cyflwynydd teledu a radio.

Colin Jackson - Enillydd medal Olympaidd am wibio a chlwydo a chyflwynydd BBC.

Ruth Jones - Actor ac awdur.

Adrian Chiles - Cyn-gyflwynydd *The One Show* a chyflwynydd chwaraeon ITV.

Scott Quinnell - Cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol i Gymru a sylwebydd chwaraeon.

A dyma'r mentoriaid sydd wedi bod ar yr hewl gyda nhw i'w helpu i ddatblygu eu gallu i siarad Cymraeg.

Mentor Carol yw'r cyflwynydd y tywydd ar BBC North West Tonight **Owain Wyn Evans**.

Mentor Colin yw'r cyflwynydd radio a theledu **Eleri Siôn**.

Mentor Ruth yw'r actores a'r gomediwraig **Gillian Elisa**.

Mentor Adrian yw'r newyddiadurwr teledu a radio BBC, **Steffan Powell**.

Mentor Scott yw'r cyflwynydd a sylwebydd chwaraeon **Sarra Elgan**.

Mae **Iaith ar Daith** yn dechrau ar ddydd Sul, Ebrill 19 am 8.00 ar S4C gyda thaith Carol a'i ffrind Owain - o Brestatyn i Sir Benfro - ac mae sawl tasg i gadw Carol yn brysur ar y ffordd.

Mae'r her gyntaf yn Ysgol y Llys, Prestatyn - lle mae gofyn i Carol gyflwyno gwers mathemateg yn y Gymraeg, i ddosbarth o blant.

Tua diwedd eu taith, mae Carol ac Owain yn picio mewn i stiwdios Tinopolis, Llanelli, lle mae Carol yn wynebu ei her fwyaf, sef cyflwyno'r tywydd yn fyw ar S4C.

"Wnes i fwynhau'r heriau - yn enwedig cyflwyno'r wers mathemateg yn y Gymraeg i grŵp o blant saith mlwydd oed yn Ysgol y Llys," meddai Carol. "Roedd y maths yn eitha' syml ond roedd yr holl beth yn hyfryd."

"Dysgais i gymaint yn ystod ein hwythnos - ac fe wnes i ac Owain chwerthin trwy'r cyfan," meddai Carol. "Dyma'r tro cyntaf i fi dreulio amser dim ond yn siarad Cymraeg ac mi wnes i fwynhau mas draw. Mi oeddwn i'n dechrau meddwl a hyd yn oed breuddwydio yn yr iaith Gymraeg erbyn y trydydd diwrnod!"



A beth yw cyngor Carol i'r rhai sydd eisiau dysgu Cymraeg? "Gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael - mae llwyth o help ar gyfer pobl sydd eisiau dysgu Cymraeg. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwrando ar gymaint o Gymraeg a medrwch chi ar y radio neu'r teledu a siarad Cymraeg mor aml â phosib."

Iaith ar Daith

Bob nos Sul am 8.00, S4C

Isdeitlau Saesneg

Ar gael ar alw ar S4C Clic s4c.cymru/clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill

Cynhyrchiad Boom ar gyfer S4C

Noddir **Iaith ar Daith** gan dysgucymraeg.cymru. Am fwy o wybodaeth am gyrsiau Cymraeg ar-lein, cyfleoedd i ymarfer eich Cymraeg a defnyddio dros 1,500 o adnoddau dysgu digidol, ewch i dysgucymraeg.cymru

09.04.20

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880450

Erthygl i'r Wasg Press Article

Celebs go on the road to learn Welsh

Five celebrities, five mentors and five different reasons for learning Welsh – this is what is at the heart of **Iaith ar Daith** (Welsh Road Trip) – a brand new series on S4C.

Every week, starting from Sunday, April 19, one celebrity and their Welsh-speaking mentor, who is also a well-known face, travel to different parts of Wales in order to learn some more of the language – and there will be several challenges along the way.

Come and meet the celebrities:

Carol Vorderman – former *Countdown* presenter, TV and radio presenter

Colin Jackson – Olympic medal winning hurdler and BBC presenter

Ruth Jones - Actor and author

Adrian Chiles - former *The One Show* presenter, ITV sport presenter

Scott Quinnell – Former Wales international rugby player and commentator

And these are the mentors who have gone on the road to help develop their celebrity friend's ability to speak Welsh:

Carol's mentor is the BBC North West Tonight weather presenter **Owain Wyn Evans**.

Colin's mentor is the radio and TV presenter **Eleri Siôn**.

Ruth's mentor is the comedian and actor **Gillian Elisa**.

Adrian's mentor is the BBC TV and radio journalist **Steffan Powell**.

Scott's mentor is the presenter and rugby commentator **Sarra Elgan**.

Iaith ar Daith begins on Sunday, April 19 on S4C at 8.00pm with Carol and her good friend Owain travelling from Prestatyn to Pembrokeshire – and there are several tasks to keep Carol busy on the way.

The first challenge is at Ysgol y Llys in Prestatyn where Carol delivers a mathematics lesson in Welsh to a class of children. Towards the end of their journey, Carol and Owain pop in to the Tinopolis studios in Llanelli where Carol faces her biggest challenge – presenting the weather live on S4C in Welsh.

"I did enjoy the challenges and one of my favourite challenges was giving a maths lesson in Welsh to a group of seven-year olds at Ysgol y Llys – a new Welsh school in Prestatyn," said Carol. "It was quite simple maths, but it was wonderful.

"I learned so much during our week, and Owain and I carried on laughing as we always do. This was the first time that I had been immersed in the language though, and I absolutely loved it. I was starting to think in Welsh and was even dreaming in Welsh by Day Three!



And what is Carol's advice to those who would like to learn Welsh? "Make the most of the resources that are available – there is a lot of help out there for people wanting to learn Welsh. Also, make sure you listen to Welsh on the telly or radio and speak Welsh as much as possible.

Iaith ar Daith is on every Sunday night at 8pm beginning from Sunday, April 19
English subtitles are available.

Available on demand on S4C Clic s4c.cymru/clic, BBC iPlayer and other platforms
A Boom production for S4C

Iaith ar Daith is sponsored by learnwelsh.cymru. For more information about online Welsh courses, opportunities to practise your Welsh or to access over 1,500 digital learning resources, go to learnwelsh.cymru.